AR GYFER BUSNES
CAMBRIA
FOR BUSINESS

WWW.CAMBRIA.AC.UK/BUSINESS



Prentisiaethau
Apprenticeships

# CANLLAW

## I GYFLOGWYR AM BRENTISIAETHU

## TECHNEGWYR LABORDY A GWYDDONIAETH

# CROESO

**Cynlluniwyd y cymwysterau hyn ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd labordy ac sy'n helpu gyda chynnal profion, ymchwil ac archwiliadau mewn amrywiaeth o ddiwydiannau neu amgylcheddau addysgol.**

Mae timau asesu Cambria ar gyfer Busnes yn gweithio'n agos gyda chwmnïau rheolwyr, adrannau ac unigolion i deilwra asesiadau i gyd-fynd â gwaith penodol a swydd y gweithiwr.

## GOFYNION LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER ARIANNU PRENTISIAETH

Cyn cofrestru ar gyfer prentisiaeth, cynhelir ymholiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer eich cwmni i gadarnhau fod polisïau statudol Iechyd a Diogelwch ar waith.

Byddwn yn monitro Iechyd a Diogelwch eich prentis yn rheolaidd trwy gydol y rhaglen hyfforddi. Bydd yr asesydd yn y gwaith yn adolygu'r hyfforddiant a'r lleoliad gwaith bob 61 diwrnod o leiaf. I gyfuno'r adolygiad gyda'r NVQ yn y gwaith, mae hyn yn aml yn cael ei gynnal yn fisol. Bydd yr adolygiad hwn yn rhoi cyfle i gyflogwyr gynnig sylwadau a bod yn rhan o hyfforddiant eich dysgwr a gwirio ei gynnydd.

## GOSOD TARGEDAU NVQ/QCF

Yn ystod pob adolygiad prentis, bydd yr asesydd yn y gwaith yn cadarnhau targedau a gytunwyd arnynt gyda'r prentis ar gyfer beth y dylid ei gwblhau erbyn eu hymweliad nesaf. Bydd hefyd yn rhoi amser i'r asesydd i adolygu a rhoi adborth ar unrhyw waith asesu sydd wedi cael ei gyflwyno a chynllunio rhagor o asesiadau ar gyfer y dyfodol.



## PA GYMWYSTERAU YN Y GWAITH FYDD YN ADDAS AR GYFER FY MHRENTIS?

Gwneir ymholiadau am natur y brentisiaeth ac, os oes angen, cynhelir ymweliad â'r safle er mwyn deall y gwaith mae'r prentis yn ei wneud.

Dylid dewis cymwysterau a llwybrau a fydd yn cyd-fynd â'r gofynion prentisiaeth ac sy'n adlewyrchu gwaith y dysgwr yn gywir fel ei fod yn gallu dangos ei gymhwysedd.

## A ALL FY MHRENTIS WNEUD RHAGOR O HYFFORDDIANT YN YSTOD EI BRENTISIAETH?

Wrth gwrs, ond rydym yn cynghori fod yr hyfforddiant yn gymesur fel bod y prentis yn gallu cwblhau gofynion y brentisiaeth bresennol.

## BETH YW PRENTIS DA?

Unigolyn sy'n llawn cymhelliant, yn ymroddedig, yn gweithio'n galed, ac yn barod i ddysgu. Mae rhai rhaglenni'n dechrau unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.

## CYMORTH GAN Y DARPARWR HYFFORDDIANT

Bydd prentisiaid yn cael cymorth parhaus gan staff y coleg, gydag arweiniad un i un penodol a chymorth gan eu Hasesydd yn y Gwaith.

# PA GYRSIAU RYDYM YN EU CYNNIG MEWN SGILIAU TECHNEGOL LABORDY YN Y GWAITH?

## NVQ

Mae NVQ yn gymhwyster cymhwysedd galwedigaethol a fydd yn asesu gwybodaeth a sgiliau dysgwyr i weithio fel technegydd labordy mewn ystod o amgylcheddau.

Mae'r cymhwyster yn cynnwys unedau gorfodol sy'n ymdrin â gwybodaeth a sgiliau cyffredinol gan gynnwys Iechyd a Diogelwch, a pherthnasau gweithio effeithlon.

Mae'r unedau dewisol yn cwmpasu meysydd fel profi, samplu, rheoli stoc, paratoi adnoddau a chyfarpar, a darparu cymorth technegol.

Nid oes unrhyw ragofynion i gyflawni'r cymwysterau hyn heblaw am brofiad a hyfforddiant yn y gweithle.

Mae cwblhau'r Lefel 3 yn galluogi unigolyn i gael cydnabyddiaeth fel Technegydd Gwyddoniaeth Cofrestredig (RSciTech) hefyd.

## Tystysgrif mewn Sgiliau Technegol Labordy

Bydd y dystysgrif yn rhoi gwybodaeth a sgiliau sylfaenol i ddysgwyr weithio fel technegydd labordy mewn ystod o amgylcheddau.

Bydd disgwyl fod gan ddysgwyr TGAU gradd C, neu gymwysterau cyfwerth, mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Mae'r cwrs yn cynnwys tair uned orfodol a dwy uned ddewisol:

### 3 Uned Orfodol:

- Arferion Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol Labordy (4 credyd) Amser dysgu dan arweiniad - 27 awr
- Rheoli Gweithrediadau yn y Labordy (3 credyd) amser dysgu dan arweiniad - 21 awr
- Gweithdrefnau Labordy Uwch (8 credyd) Amser dysgu dan arweiniad – 60 awr

### 2 Uned Ddewisol:

- Technegau Labordy Biolegol a Biogemegol (5 credyd) amser dysgu dan arweiniad – 42 awr
- Technegau labordy cemegol (5 credyd) Amser dysgu dan arweiniad – 42 awr

### Asesu

**Mewnol –**

- Ymarferion ysgrifenedig ac ymarferol a osodir gan y Sefydliad Dyfarnu, wedi eu marcio yn fewnol

**Allanol –**

Arholiad ysgrifenedig 2.5 awr sydd yn cael ei farcio gan y Sefydliad Dyfarnu

Mae'r cwrs yn cael ei gyflwyno un diwrnod yr wythnos dros 35 wythnos mewn labordy ar safle Glannau Dyfrdwy Coleg Cambria sy'n fodern, pwrpasol, ac yn llawn adnoddau sy'n diwallu anghenion y dysgwyr ar y cwrs hwn. Bydd cyflwyno'r cynnwys gwyddonol yn seiliedig ar weithgareddau ymarferol a fydd yn datblygu dealltwriaeth o wybodaeth berthnasol a'i chymhwyso.

**WWW.CAMBRIA.AC.UK/BUSINESS**
**0300 30 30 006**